Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru - Uwch Swyddog Prosiect

Cefndir

Mae Menter Môn yn gyfrifol am weithredu Prosiect Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru (NWFLAG) tan 2023. Sefydlwyd NWFLAG yn wreiddiol o dan Echel 4 o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop 2007-2013 a oedd yn cwmpasu Gwynedd ac Ynys Môn. Nawr, o dan Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014-2020, mae'r Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) yn cwmpasu'r ardal o Gei Connah i Bwllheli.

Mae NWFLAG yn bwrw ymlaen â'r nod o adfywio economi cymunedau arfordirol Gogledd Cymru, ynghyd â chryfhau a dod â'r cymunedau hynny yn nes at ei gilydd. Mae aelodau FLAG felly'n cael eu dewis o'r Cymunedau Arfordirol hynny, gan gynnwys pysgotwyr, cymdeithasau Pysgotwyr, proseswyr/manwerthwyr Bwyd Môr, perchnogion bwytai, sefydliadau Amgylcheddol, Cynghorau Sir a cholegau lleol.

Prosiect a ariennir trwy Gronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop yw hwn sy'n anelu at gynyddu cyflogaeth a chydlyniant tiriogaethol trwy 5 amcan penodol:

- **ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesi ar bob cam yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu**
- **cefnogi arallgyfeirio y tu mewn neu'r tu allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu**
- **gwella ac elwa o'r asedau amgylcheddol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu, yn cynnwys gweithrediadau i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd**
- **hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd pysgodfeydd a dyframaethu, yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol pysgodfeydd, dyframaethu a morol**
- **cryfhau'r rhan y mae cymunedau pysgodfeydd yn ei chwarae mewn datblygu lleol a llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol.**

Mae NWFLAG yn rhan o rwydwaith o grwpiau FLAG ledled y DU ac mae'n gweithio'n agos gyda grwpiau FLAG eraill Cymru, yng Ngheredigion, Sir Benfro ac Abertawe. Mae

enghreifftiau o waith y grwpiau FLAG ledled Cymru i'w gweld ar eu gwefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn chwilio am swyddog prosiect profiadol a all helpu i gyflawni'r prosiect, a chynorthwyo i ddatblygu prosiectau ar gyfer cymunedau arfordirol. Yn ddelfrydol, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o'r sector pysgota er mwyn deall y ddynameg a'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Diben y swydd

Bydd y Swyddog Prosiect Pysgodfeydd yn gweithio gyda, ac yn cefnogi Rheolwr y Prosiect, y Rheolwr Gweithrediadau a rheolwyr eraill yn ôl cyfarwyddyd, i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus -

- Yn erbyn Nodau ac Amcanion Strategol y sefydliad.
- Yn erbyn Nodau ac Amcanion Strategol y prosiect fel y'i disgrifir yn y cais prosiect a'r Strategaeth Datblygu.
- Mae'r nodau a'r amcanion wedi'u diffinio'n glir yn Strategaeth Datblygu Pysgodfeydd Gwynedd ac Ynys Môn, sydd ar gael ar wefan Menter Môn o dan 'Cymunedau Arfordirol'.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd

Datblygu Prosiect

- Adnabod prosiectau unigol sy'n helpu i ddatblygu Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd Gogledd Cymru (NWFLDS) a datblygu'r prosiectau i'r cam ymgeisio, i'w cytuno gan NWFLAG a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau synergedd gyda'r Strategaeth Datblygu Gwledig a'r cyllid strategol sydd eisoes yn ei le yn y siroedd fel y bo'n briodol.
- Adnabod yr adnoddau sydd eu hangen a chyflogi/pennu isgontractwyr os yw'n briodol
- Cyflawni agweddau gweithredol o ddydd i ddydd y prosiect.
- Cynorthwyo i baratoi agweddau cyflawnadwy i fuddiolwyr prosiectau yn unol â rheolau ac argymhellion sy'n cael eu gosod ar y prosiect gan gorff/cyrff ariannu
- Gweithredu methodoleg y sefydliad yn effeithiol a chydymffurfio â safonau'r prosiect.
- Sicrhau bod dogfennau'r prosiect yn gyflawn, yn gyfredol ac wedi'u harchifo'n briodol.
- Darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i'r NWFLAG yn ôl yr angen.

Cyllid y Prosiect

- Cynorthwyo i reoli cyllidebau prosiect mewn cysylltiad â'r Rheolwr Prosiect a staff ariannol y sefydliad.
- Cofnodi'n gywir holl wariant y prosiect ac unrhyw incwm a gynhyrchir gan y prosiect yn unol â'r sefydliad sy'n ariannu'r prosiect gan dalu sylw i reolau a rheoliadau caffael y sefydliad hwnnw.
- Cydymffurfio â'r systemau gwariant fel yr amlinellir yn 'system brynu'r cwmni' gan gynnwys gweithdrefnau caffael y sefydliad partner.
- Cynorthwyo i gysoni gwariant gwirioneddol y prosiect gyda hawliadau chwarterol/misol fel sy'n ofynnol gan Reolwr y prosiect.
- Cynorthwyo i gynhyrchu adroddiadau misol ar wariant neilltuedig a gwariant gwirioneddol mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ac adrodd i'r rheolwr Prosiect ac aelodau'r FLAG mor aml ag sy'n ofynnol.

Isgontractwyr a phartneriaid

- Rheoli isgontractwyr sy'n gweithio ar brosiectau
- Cynnal cronfa ddata o isgontractwyr
- Chwilio am isgontractwyr a phartneriaid newydd

Teithio

Gan fod y prosiect hwn yn cwmpasu Gogledd Cymru ac er ei fod wedi'i leoli yn Llangefni, bydd y swydd yn golygu teithio ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Bydd hefyd yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a grwpiau FLAG eraill Cymru, felly bydd angen teithio o gwmpas Cymru o bryd i'w gilydd.

Mae manylion penodol pellach am y swydd i'w cael yn y fanyleb swydd Academaidd a phersonol.

North Wales Fisheries Local Action Group – Senior Project Officer

Background

Menter Môn are responsible for implementing the North Wales Fisheries Local Action Group Project (NWFLAG) until 2023. The NWFLAG was originally started under Axis 4 of the European Fisheries Fund 2007-2013 covering Gwynedd and Anglesey. Now, under the 2014-2020 European and Maritime Fisheries Fund, the FLAG covers from Connah's key to Pwhelli.

The NWFLAG carries forward the aim of economic regeneration within the coastal communities of North Wales, together with strengthening and bringing those communities closer. The FLAG members are therefore selected from those Coastal Communites including fishermen, Fishermen's' associations, Seafood processors/retailers, Restauranteaurs, Environmental organisations, County Councils and local colleges.

This is a European Monitoring and Fisheries Fund that aims to **increase employment and territorial cohesion** through 5 specific objectives.

Adding value, creating jobs, attracting young people and promoting innovation at all stages of the supply chain of fishery and aquaculture products.

Supporting diversification inside or outside commercial fisheries, lifelong learning and job creation in fisheries and aquaculture areas.

Promoting social well-being and cultural heritage in fisheries and aquaculture areas, including fisheries and maritime cultural heritage.

Enhancing and capitalising on the environmental assets of the fisheries and aquaculture areas, including operations to mitigate climate change.

Strengthening the role of fisheries communities in local development and the governance of local fisheries resources and maritime objectives.

The NWFLAG is part of a UK wide network of FLAG's and works closely with the FLAGS in Wales, situated in Ceridigion, Pembrokeshire and Swansea. Examples of the FLAGS work throughout Wales can be found on their respective websites and on social media.

We are looking for an experienced project officer who can help deliver the project, assist with developing coastal community projects and, preferably, have experience within the fishing sector in order to understand the dynamics and challenges it faces.

Purpose of job

A Fisheries Project Officer works with and supports the Project Manager, the Operations Manager and other managers as particularly specified to ensure a project is successfully delivered –

- Against the Strategic Aims and Objectives of the organisation.
- Against the Strategic Aims and Objectives of the project as described in the project application and Development Strategy.

- Both the aims and objectives are clearly defined in the Gwynedd and Anglesey Fisheries Development Strategy with you can find on the Menter Mon website under Coastal Communities.

Main duties and responsibilities of the job

Project Development

.

- Identify individual projects that help develop the NWFLDS and develop the projects to application stage, to be agreed by the NWFLAG and submitted to the Welsh Government.
- Ensures synergy with the Rural Development Strategy and strategic funding already in place within the counties as appropriate.
- Identifies resources needed and engages/assigns sub-contractors if appropriate
- Deliver the day-to-day operational aspects of the project.
- Assists with preparation of deliverables to project beneficiaries in line with rules and recommendations places upon the project by funding body/bodies
- Effectively apply the organisations methodology and adheres to project standards.
- Ensures project documents are complete, current and archived appropriately.
- Provide secretariat services to the NWFLAG as required.

Project Finances

- Assist with the management of project budgets in liaison with the Project Manager and the organisations financial staff.
- Accurately records all project expenditure and any income generated by the project in accordance with the projects funding organisation paying attention to the projects funding organisation's procurement rules and regulations.
- Adheres to the expenditure systems as outlined in the companies 'purchase system' including the partner organisations procurement procedures.
- Assist with reconciliation of the actual expenditure for the project to quarterly/monthly claims as required by the project Manager.
- Assists with the production of monthly reports on committed and actual expenditure in liaison with WG and report to the Project manager and the FLAG members as frequently as required.

Sub-contractors and associates

- Manage sub-contractors working on projects
- Maintain database of sub-contractors
- Seek new sub-contractors and associates

Travelling

As this project encompasses NorthWales and although based in Llangefni, the job will require travel throughout the NorthWales coast. It will also include regular meetings with Welsh Government and the Welsh FLAGS that will require travel from time to time around Wales.

Further specific requirements for the role are detailed in the Academic and personal job specification.